



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

# Yr arfer presennol o ran defnyddio adeiladau ysgol gwag



## Gwybodaeth

Dogfen wybodaeth rhif: 158/2014  
Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2014

# Yr arfer presennol o ran defnyddio adeiladau ysgol gwag

<b>Cynulleidfa</b>	Awdurdodau lleol; cyrff llywodraethu ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr; awdurdodau esgobaethol yr eglwys; ysgolion cymuned a gwirfoddol a reolir yng Nghymru a'u cyrff llywodraethu.
<b>Trosolwg</b>	Mae'r ddogfen hon yn disgrifio enghreifftiau o'r defnydd presennol a wneir o adeiladau ysgol gwag.
<b>Camau i'w cymryd</b>	Dim – er gwybodaeth yn unig.
<b>Rhagor o wybodaeth</b>	Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at: Y Gangen Llywodraethu a Threfniadaeth Ysgolion Yr Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion Yr Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ e-bost: <a href="mailto:SchoolsManagementDivision3@cymru.gsi.gov.uk">SchoolsManagementDivision3@cymru.gsi.gov.uk</a>
<b>Copïau ychwanegol</b>	Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn <a href="http://www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau">www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau</a>
<b>Dogfennau cysylltiedig</b>	Dogfen ymgynghori <i>Canllaw arfer da i ddefnyddio adeiladau ysgol gwag</i> (2012)

# Cynnwys

<b>1.</b>	<b>Cyflwyniad</b>	<b>2</b>
	Y cefndir	2
	Adnabod arfer presennol	5
	Canfyddiadau	5
<b>2.</b>	<b>Camau anstatudol i ad-drefnu ysgolion</b>	<b>6</b>
<b>3.</b>	<b>Gwasanaethau eraill</b>	<b>8</b>
<b>4.</b>	<b>Cyfleusterau cymunedol</b>	<b>10</b>
<b>5.</b>	<b>Gwell darpariaeth addysgol</b>	<b>12</b>
	Cyfleusterau ar gyfer disgyblion ag anghenion	
	dysgu ychwanegol (ADY)	12
	Cyfleusterau ar gyfer disgyblion y blynyddoedd cynnar	14
	Gwella cyfleusterau	16
<b>6.</b>	<b>Crynodeb o'r materion i'w hystyried</b>	<b>18</b>
<b>7.</b>	<b>Cysylltiadau</b>	<b>20</b>
<b>Atodiad:</b>	<b>Dogfennau cysylltiedig</b>	<b>21</b>

# 1. Cyflwyniad

1.1 Bwriad y ddogfen hon yw rhoi gwybodaeth i awdurdodau lleol ac eraill sydd â budd yn y mater, ynglŷn ag arfer presennol o ran defnyddio lleoedd gwag mewn ysgolion, pan ystyrir nad yw'n ymarferol cael gwared arnynt drwy ad-drefnu neu ddull arall.

## Y cefndir

1.2 Mae nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion wedi tyfu'n gyflym yn ystod y deng mlynedd hyd at 2012. Yn fwy diweddar, mae mwy o ddisgyblion cynradd wedi dechrau symud trwy'r system, ac mae hyn, yn ogystal â chymau a gymerwyd gan nifer o awdurdodau lleol, yn cael effaith. Bydd nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion uwchradd yn parhau i gynyddu dros yr ychydig flynyddoedd nesaf os nad oes modd eu had-drefnu. Mae'r tabl canlynol yn dangos patrwm y lleoedd gwag mewn ysgolion yng Nghymru yn ystod yr 11 mlynedd hyd at fis Ionawr 2013.

### Nifer Gros y Lleoedd Gwag Mewn Ysgolion<sup>1</sup> rhwng 2002 a 2013

	Ionawr 2002	Ionawr 2007	Ionawr 2009	Ionawr 2010	Ionawr 2011	Ionawr 2012	Ionawr 2013
	%	%	%	%	%	%	%
Cynradd	15.7	17.9	20.2	21.0	20.7	19.1	17.6
Uwchradd	12.1	14.8	15.9	16.4	16.9	18.0	18.7
Pob ysgol	14.1	16.5	18.2	18.9	18.9	18.6	18.1

1.3 Mae rhai awdurdodau lleol wedi bod yn gweithredu i gael gwared ar leoedd gwag. Fodd bynnag, tan yn ddiweddar nid yw hynny wedi digwydd ar raddfa gyffredinol sy'n cyfateb i'r gostyngiad mewn niferoedd disgyblion. Ystyrir ar y cyfan y gellid cael gwerth am arian yn y cyflenwad o leoedd ysgol trwy osgoi darparu gormod neu rhy ychydig o leoedd. Cydnabyddir hefyd nad yw'n realistig nac ychwaith yn ôl pob tebyg yn ddymunol anelu at gyfatebiad perffaith rhwng disgyblion a lleoedd ym mhob ysgol gan nad yw pob lle heb ei llenwi yn lle gwag ac nad oes modd cael gwared ar bob lle dros ben mewn ffordd gost effeithiol.

1.4 Roedd yr adolygiad i gostau gweinyddu addysg yng Nghymru<sup>2</sup> yn argymhell y dylai awdurdodau lleol anelu at gadw dim mwy na 10% o leoedd gwag yn gyffredinol ac mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhelliad hwn. Fodd bynnag, hyd yma nid oes unrhyw awdurdod lleol wedi cyrraedd y lefel a argymhellir o leoedd gwag ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd.

<sup>1</sup> Lleoedd heb eu llenwi

<sup>2</sup> Strwythur Gwasanaethau Addysg yng Nghymru, Vivian Thomas – Mawrth 2011

1.5 Cynhaliwyd gwaith ymchwil gan Estyn ar sut y mae lleoedd gwag yn effeithio ar yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer gwariant ar wella canlyniadau i ddisgyblion; cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mai 2012<sup>3</sup>. Yn yr adroddiad hwn, dywedodd Estyn y gallai gostio llawer mwy i gael gwared ar leoedd gwag mewn rhai ysgolion na'r cyllid referniw y gellid ei arbed wrth gael gwared arnynt. Mewn achosion eraill, canfuwyd y gellid arbed llawer mwy trwy gael gwared ar ysgol 'dros ben' na thrwy gael gwared ar y lleoedd gwag ynddi. Nododd Estyn mai cau ac uno ysgolion oedd yn arbed yr arian mwyaf ar gyfer ail-fuddsoddi i godi safonau, ond nodwyd y byddai angen buddsoddiad ariannol ac ymrwymiad gwleidyddol yn aml ar gynlluniau o'r fath. Roedd Estyn hefyd yn pwysleisio ei bod yn bwysig i awdurdodau lleol ddefnyddio data yn effeithiol er mwyn gwneud defnydd mwy effeithlon o'u hasedau.

1.6 Gallai defnydd effeithiol o ddata gynnwys:

- Sicrhau bod yr wybodaeth am gapasiti ysgolion, y defnydd a wneir o adeiladau a'r nifer sydd wedi cofrestru yn gyfredol ac yn gywir er mwyn llywio'r broses trefniadaeth ysgolion ac fel y gellir gwneud y defnydd gorau posibl o adeiladau.
- Gwella technegau i lunio rhagamcan o nifer y disgyblion a fydd yn mynychu ysgolion cynradd ac uwchradd yn y dyfodol, er mwyn medru cymryd camau amserol os digwydd i'r galw am leoedd gynyddu neu ostwng.
- Sicrhau bod trefniadau derbyn yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol er mwyn osgoi sefyllfa lle mae rhai ysgolion yn derbyn gormod o geisiadau ar draul ysgolion eraill, llai poblogaidd.
- Manteisio ar wybodaeth ehangach megis asesiadau o anghenion lleol cyffredin er mwyn canfod bylchau o ran yr adeiladau sydd ar gael ar gyfer sefydliadau partner.

1.7 Llywodraeth Cymru sy'n sefydlu'r polisi a'r fframwaith deddfwriaethol cyffredinol ar gyfer trefniadaeth ysgolion, ac mae hyn bellach wedi ei gynnwys yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013:  
<http://www.legislation.gov.uk/2013?title=School%20Standards%20and%20Organisation%20%28Wales%29%20Act>

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/school-organisation-code/?skip=1&lang=cy>

Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gynllunio a rheoli lleoedd mewn ysgolion ac mae'n rhaid iddynt sicrhau darpariaeth yn effeithlon er mwyn i adnoddau gael eu canolbwyntio ar wella deilliannau addysgol i bobl ifanc. Dylent adolygu darpariaeth os oes gormod o leoedd gwag, a chyflwyno cynigion ar gyfer ad-drefnu neu wneud defnydd amgen o safle'r ysgol lle bo'n ymarferol, fel bod yr asedau'n rhoi'r gwerth

---

<sup>3</sup> Sut mae lleoedd dros ben yn effeithio ar yr adnoddau sydd ar gael i wario ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion?

gorau posibl am arian. Rhaid i awdurdodau lleol hefyd sicrhau bod adeiladau'n cael eu defnyddio'n effeithiol, gan herio ysgolion, lle bo hynny'n briodol, yn glŷn â'r defnydd a wneir o ystafelloedd, er mwyn gwneud y mwyaf o werth yr eiddo.

1.8 Gall fod yn anodd i awdurdodau lleol reoli lleoedd. Er ei bod yn afresymol disgwyl iddynt gael gwared ar bob lle gwag – a hynny oherwydd bod ganddynt ddyletswydd i ddarparu digon o leoedd ysgol a bod angen iddynt allu rheoli amrywiadau yn y galw yn y dyfodol o ganlyniad i newid demograffig a dewisiadau'r rhieni – mae angen mynd i'r afael â gormodedd o leoedd gwag gan eu bod yn gallu clymu adnoddau y gellid eu defnyddio i wella'r ddarpariaeth addysgol. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y dylai unrhyw strategaethau a ddefnyddir i leihau lleoedd gwag ganolbwyntio ar sicrhau gwell deilliannau ar gyfer dysgwyr ac ar reoli ystâd ysgolion ac adnoddau eraill yr awdurdod lleol yn well. Ni ddylai cael gwared ar leoedd gwag fod yn ddiben ynddo'i hun. Fel y nododd Estyn 'Dylai unrhyw strategaeth ad-drefnu ysgolion fynd ati i wella safonau. Dylai rhaglenni ad-drefnu ysgolion fod yn glŷn â gwella ysgolion yn bennaf, yn hytrach na bod yn ymarfer rheoli adnoddau sy'n annibynnol ar fuddiannau dysgwyr.'

1.9 Mae rhaglen adeiladu Llywodraeth Cymru, Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, yn cefnogi prosesau cynllunio strategol awdurdodau lleol er mwyn darparu adeiladau ysgol newydd neu well, gan leihau nifer y lleoedd gwag. Bydd cynigion gan awdurdodau lleol ar gyfer buddsoddiad sydd wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â chapasiti gwag a chyflwr gwael adeiladau ysgol ac yn eu cynorthwyo i ddarparu ysgolion cynaliadwy, cost effeithiol sy'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif. Fodd bynnag, ar gyfer y meysydd hynny nad ydynt wedi'u cynnwys yn rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif mae angen mynd ati'n ymarferol ac yn fwy creadigol, er mwyn mynd i'r afael â'r defnydd aneconomaidd o adeiladau ysgol.

1.10 Er bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen cadw nifer resymol o leoedd gwag ar draws yr ystâd ysgolion i ganiatáu ar gyfer amrywiadau yn nifer y disgyblion yn y dyfodol neu yn y galw am ysgolion penodol, er enghraifft darpariaeth cyfrwng Cymraeg, mae'n disgwyl i awdurdodau lleol gymryd camau amserol i sicrhau y defnyddir adeiladau ysgol yn effeithiol gan gynnal neu wella deilliannau dysgwyr. Yn aml, byddai camau o'r fath yn cynnwys ad-drefnu ysgolion a byddai angen gweithdrefnau statudol i wneud hynny. Fodd bynnag, roedd Estyn yn cydnabod na fydd hi bob amser yn gost-effeithiol cael gwared arnynt o bosibl, hyd yn oed pan fydd lleoedd heb eu llenwi yn wirioneddol y tu hwnt i'r gofynion. 'Efallai na fydd natur a chynllun yr adeilad ysgol yn ei gwneud yn hawdd cael gwared ar ystafelloedd dosbarth dros ben; neu os nad oes unrhyw ysgolion eraill o fewn pellter teithio rhesymol, efallai nad yw'n realistig cau ysgol gyfan.' Felly, mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn meddwl yn creadigol am eu hystâd er mwyn defnyddio adnoddau i'r eithaf.

1.11 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod rhai awdurdodau lleol eisoes yn edrych ar eu hystâd ysgolion mewn ffordd arloesol, ac yn tybio mai da o beth fyddai rhannu'r arferion da sydd i'w cael ledled Cymru ar hyn o bryd. O ganlyniad, mae'r ddogfen wybodaeth hon yn amlygu strategaethau sydd ar waith ar hyn o bryd er mwyn gwneud gwell defnydd o leoedd gwag. Y gobaith yw y bydd y ddogfen hon yn ysgogi trafodaeth ac yn annog gweithredu fel y gellir rheoli'r ystâd ysgolion yn fwy effeithiol.

## **Adnabod arfer presennol**

1.12 Fel cam cyntaf gofynnwyd i awdurdodau lleol ddarparu enghreifftiau o ddefnydd amgen a wneir o adeiladau ysgol, a gwybodaeth am yr elfennau hynny a oedd yn gweithio'n dda a'r rhai a oedd yn llai llwyddiannus. Cyflwynwyd yr ymatebion cychwynnol gyda'i gilydd mewn dogfen ddrafft a gafodd ei thrafod yn fanwl gan weithgor a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr nifer o awdurdodau lleol a wasanaethai ar grŵp Cynllunio Lleoedd Ysgol Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. O ganlyniad i'r trafodaethau hyn, addaswyd y ddogfen ddrafft cyn ei dosbarthu ar gyfer ymgynghori. Mae'r ddogfen wedi ei mireinio a'i golygu o ganlyniad i'r ymgynghoriad ehangach. Cynigiodd rhai o'r bobl yr ymgynghorwyd â hwy enghreifftiau eraill o arferion presennol a gwersi a ddysgwyd.

## **Canfyddiadau**

1.13 Mae awdurdodau lleol wedi defnyddio adeiladau gwag mewn ysgolion ar gyfer amrywiaeth eang o ddibenion. Er hwylustod, mae'r rhain wedi eu gosod o fewn 4 categori: ad-drefnu ysgolion, gwasanaethau eraill, defnydd cymunedol a gwell darpariaeth addysgol. Mae'r manteision o wneud defnydd amgen o adeiladau ysgol, a'r gwersi a ddysgwyd, wedi'u cynnwys yn y blychau yn dilyn pob categori. Mae'n bosibl bod enghreifftiau eraill o arferion presennol y canfuwyd eu bod yn fanteisiol ond na chawsant eu cynnwys yn y ddogfen hon.

## 2. Camau anstatudol i ad-drefnu ysgolion

2.1 Mae awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion wedi mabwysiadu'r strategaethau ad-drefnu canlynol, nad oedd angen dilyn gweithdrefnau statudol ar eu cyfer, er mwyn mynd i'r afael ag adeiladau gwag:

- Symud neu ddymchwel adeiladau diangen neu symud ystafelloedd dosbarth dros dro i ysgolion eraill sydd â galw cynyddol.
- Mwy nag un ysgol yn rhannu adeilad, weithiau i ragflaenu gweithdrefnau statudol. Canfu un awdurdod lleol fod modd iddo ehangu ysgol gynradd Gymraeg a oedd yn tyfu, trwy ei chynnwys mewn ysgol uwchradd a oedd â nifer sylweddol o leoedd gwag.

### Manteision rhannu adeiladau

- Canfu awdurdod lleol y gallent gael gwared ag adeilad nad oedd ei angen mwyach trwy rannu adeilad rhwng dwy ysgol; llwyddwyd i arbed ar y costau rhedeg a chafwyd arbedion maint hefyd.
- Symudodd awdurdod lleol arall Ysgol Iau i mewn i adeilad Ysgol Fabanod gyfagos, cyn i'r disgyblion symud i adeilad ysgol gynradd newydd. Roedd peth ansicrwydd ynghylch y symud ymysg rhieni a'r gymuned ar y cychwyn, ond profodd y syniad o gyfuno'r ddwy ysgol ar un safle yn llwyddiannus iawn. Galluogwyd yr ysgolion i weithio'n agosach ac adlewyrchu elfennau o'r hyn a fyddai'n digwydd mewn ysgol gynradd lle'r oedd adran y babanod a'r adran iau ar un safle. Cafodd cysylltiadau pontio eu gwella rhwng Cyfnodau Allweddol 1 a 2, gyda gwybodaeth / arfer gorau yn cael eu rhannu rhwng y staff gan ddod yn fwy organig ar draws y ddwy ysgol; arweiniodd hyn at well deilliannau i ddisgyblion. Yn ogystal, soniodd yr awdurdod lleol bod y symud wedi paratoi disgyblion ar gyfer trosglwyddo i adeiladau newydd yr ysgol gynradd a thawelu ofnau rhieni am y trosglwyddo.
- Galluogwyd yr awdurdod lleol i arbed arian sylweddol gan fod modd cau un adeilad. Mae'r trefniant hefyd wedi rhoi rhyddid i ddatblygu'r safle arall. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod y symud hefyd wedi cyfrannu'n gadarnhaol at ennyn cefnogaeth y rhieni, y gymuned a rhanddeiliaid eraill.
- Mae'r rhieni a'r gymuned wedi cael amser i ddod i arfer â gweld y disgyblion mewn amgylchedd ysgol gynradd, sy'n cynnwys adran iau ac adran fabanod ar un safle.

### Gwersi a ddysgwyd

- Dylid bod yn ofalus wrth ystyried unrhyw drefniadau o'r fath oherwydd ei bod yn bosibl y gallai fod angen gweithdrefnau statudol os yw'r newid yn gyfystyr â newid a reoleiddir i un o'r ysgolion. Mae angen cyfeirio at Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadau Ysgolion 2013 er mwyn penderfynu a oes angen cyflwyno cynigion.
- Gall fod yn ddrud cael gwared ar adeiladau dros dro.



- Er nad oes angen dilyn gweithdrefnau statudol o reidrwydd, mae'n ddoeth sicrhau bod pob ochr yn ymwybodol o'r rhesymau dros wneud y newidiadau.

### 3. Gwasanaethau eraill

3.1 Mae'r adran hon yn ymwneud â defnyddio adeiladau ysgol ar gyfer gwasanaethau eraill a allai fod yn cael eu hariannu'n gyhoeddus yn bennaf. Gallai gynorthwyo awdurdod lleol i ddarparu ei wasanaethau i gyd yn fwy cost effeithiol pe byddai'n defnyddio ysgol i gyflwyno rhai gwasanaethau.

- a) Cynnig adeiladau ysgol diangen i adrannau eraill o'r Cyngor.
- b) Y gwasanaeth llyfrgell yn defnyddio rhan o ysgol fel llyfrgell leol.
- c) Canolfan ar gyfer Swyddogion Heddlu Cymunedol mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru. Mewn un awdurdod lleol roedd y gweithgareddau cymunedol a drefnwyd gan yr heddlu ar safle'r ysgol yn ystod oriau'r ysgol a'r tu allan i oriau'r ysgol yn gymorth i staff yr ysgol ddatblygu cysylltiadau agosach gyda rhieni a'r gymuned ehangach.
- ch) Gallai fod yn bosibl i feddygfeydd, byrddau iechyd ac awdurdodau plant integredig eu defnyddio.
- d) Cymorth cyflogaeth Pontio'r Bwlch.
- dd) Prosiect Genesis Cymru, sy'n ceisio cynyddu cyfranogiad yn y farchnad lafur trwy adnabod unigolion sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur, er enghraifft merched sy'n rhieni unigol, a darparu cefnogaeth iddynt.
- e) Gwasanaeth gwybodaeth i deuluoedd, sy'n rhoi gwybodaeth a chyngor ym maes gwasanaethau lleol i deuluoedd a gofalwyr, ac yn cynnig cymorth am ddim i unrhyw un sy'n magu plant.
- f) Aelodau'r Gymdeithas Genedlaethol Gwarchodwyr Plant.
- ff) Gosod neu roi lle i elusennau/y trydydd sector (er enghraifft, rhoddodd un awdurdod lleol ddwy ystafell ddosbarth symudol i Barnados a oedd yn gweithio'n agos gydag ysgolion a theuluoedd mewn ardal ddifreintiedig ar brosiectau ymyrraeth gynnar).
- g) Gwaith amlasiantaeth.
- ng) Canolfan Addysg Step Ahead ac aelodau staff Addysg eraill.

### **Manteision darparu gwasanaethau eraill**

- Gallai'r ffaith bod cyrff eraill yn defnyddio'r safle ddenu incwm ychwanegol ar gyfer yr ysgol.

### **Gwersi a ddysgwyd**

- Defnyddiodd coleg lleol ran o ysgol feithrin i ddarparu cyrsiau addysgol achrededig. Gweithiodd y trefniant hwn yn dda am nifer o flynyddoedd, ond tynnodd y coleg yn ôl yn ddisymwth oherwydd bod y nifer a oedd yn dilyn y cwrs wedi gostwng, a gadawyd yr ysgol gyda chostau cynnal a chadw'r ystafelloedd dosbarth a oedd wedi'u hadnewyddu.
- Mae angen cefnogaeth gan y cyrff llywodraethu er mwyn sefydlu trefniadau i adeiladau'r ysgol gael eu defnyddio i ddibenion gwahanol.
- Gall fod yn anodd sefydlu cytundebau rheoli lleol.
- Mae angen gofalu nad yw cyllideb yr ysgol yn cael ei beryglu.
- Anfonwyd deiseb at awdurdod lleol gan rieni ysgol gynradd yn gofyn iddynt symud y cyrsiau cymunedol o'r ysgol am eu bod yn teimlo bod risg i blant ar y safle gan aelodau o'r cyhoedd, er bod y plant yn cael eu goruchwyllo'r holl amser. Ers hynny, sefydlwyd mesurau diogelwch ychwanegol ar gyfer unrhyw gyfleusterau cymunedol a gafodd eu hadeiladu neu eu darparu mewn ysgolion, er enghraifft, mae ganddynt eu toiledau eu hunain fel arfer ac ni chaiff ddefnyddwyr fynediad i rannau eraill o'r ysgol.
- Cafwyd mân broblemau cysylltiedig â threfniadau prydlesu/rhentu neu am fod y berthynas rhwng yr ysgol a'r defnyddiwr wedi chwalu.

## 4. Cyfleusterau cymunedol

4.1 Gall ysgolion sydd â chyfleusterau cymunedol elwa trwy i'r gymuned leol gymryd mwy o ran ym mywyd yr ysgol. Mae hyn yn fwyaf tebygol o ddigwydd pan fydd yr ysgol yn cymryd rhan weithgar yn y gymuned, yn hytrach na darparu cyfleusterau yn unig. Nod un awdurdod lleol sy'n darparu cyfleusterau cymunedol ym mhob adeilad ysgol newydd yw atgynhyrchu'r adnoddau hynny mewn ysgolion presennol na fyddant yn cael eu disodli. Mae'r cyfleusterau cymunedol a ddarperir yn cynnwys y canlynol:

- a) Llwyddwyd i godi ymwybyddiaeth o arferion bwyta'n iach ac i gefnogi teuluoedd i goginio gydag amrywiaeth o gynhwysion iach, trwy ddarparu sesiynau coginio. Mae rhieni hefyd wedi ennill cymwysterau ac mae wedi hwyluso perthynas agosach â'r ysgol.
- b) Dosbarthiadau dysgu oedolion a defnydd gan grwpiau Cymunedol gyda'r nos.
- c) Canolfan Cymunedau yn Gyntaf leol. Mewn un awdurdod lleol, bu'r tîm Cymunedau yn Gyntaf yn gweithio gyda'r ysgol i ennyn diddordeb y gymuned ehangach yn ogystal â theuluoedd, trwy gynnal dosbarthiadau dysgu oedolion, sesiynau Dysgu a Chwarae a sesiynau Rhif a Chwarae.
- ch) Lle i gynnal cyfarfodydd cymunedol neu gynadleddau.
- d) Canolfan ieuencid.
- dd) Ystafell gymunedol sy'n cael ei defnyddio i ddarparu iaith a Chwarae, Rhif a Chwarae a chysiau achrededig i aelodau o'r gymuned leol. Cyflawnodd rhieni / gofalwyr ar y cyrsiau achrededig eu lleoliadau gwaith yn yr ysgol - roedd hyn yn darparu cymorth ychwanegol ar gyfer staff addysgu ac yn creu perthynas agosach rhwng y rhieni a'r ysgol. Hefyd cyflawnodd rhieni a oedd yn dilyn y cyrsiau Gymhwyster Cynorthwy-ydd Addysgu Lefel 2 sydd wedi eu galluogi i gael gwaith mewn ysgolion lleol.

### Manteision cyfleusterau cymunedol

- Mae llawer o'r ysgolion y mae cyfleusterau cymunedol wedi symud ar eu safleoedd wedi sôn am ganlyniadau cadarnhaol. Yn benodol, mae gan yr ysgolion gysylltiadau llawer mwy agos â'u cymunedau, gyda'r ysgol yn cymryd rôl fwy ganolog yn y gymuned. Mae'r ysgolion yn tueddu i ennyn mwy o barch a chefnogaeth gan eu cymunedau. Mae'r rhieni hefyd yn ymgysylltu mwy â gwaith yr ysgol. Mae hyn fwyaf effeithiol lle mae cysylltiad rhwng y defnydd a wneir gan rieni o'r cyfleusterau, a dysgu trosglwyddadwy.
- Mae i'r sesiynau sydd wedi eu hanelu at rieni botensial ar gyfer dysgu sy'n cydfynd â'r hyn a ddysgir gan y plant.
- Gall dosbarthiadau dysgu oedolion wella sgiliau rhieni a gofalwyr ar gyfer cefnogi addysg eu plant.

## Gwersi a ddysgwyd

- Mae'n bwysig monitro'r effeithiau ar broses ddysgu'r plant, er enghraifft, pan fydd rhieni'n cymryd rhan mewn rhaglenni yn yr ysgol.
- Ni all ysgol roi cymhorthdal ar gyfer defnydd nad yw'n ymwneud â'r ysgol ac yn aml ni ellir adennill y costau'n llawn. Mae angen cloriannu costau ychwanegol gwres, glanhau, gofalu a gweinyddu yn erbyn incwm a buddion eraill.
- Os oes costau cyfalaf, dylai'r ysgol a'r awdurdod lleol edrych yn ofalus a yw'r defnydd a wneir o'r ysgol yn gynaliadwy.
- Rhaid gofalu bod diogelwch disgyblion yn cael ei sicrhau.
- Nid yw ysgolion a chymunedau bob amser yn croesawu'r syniad o rannu ysgolion/neuaddau cymunedol.
- Fe allai arwain at gostau a beichiau gweinyddol, megis gofynion cyfreithiol, yswiriant a chostau profion trydanol.
- Mae angen ystyried pa mor ymarferol yw cynnig safle at ddefnydd cymunedol yn y tymor hir. Er enghraifft, mae ysgol gynradd sydd newydd ei hadeiladu yn cynnwys llyfrgell gyhoeddus newydd gyda'r cyfleusterau diweddaraf, 4 ystafell benodol at ddefnydd y gymuned, cyfleusterau newid ar gyfer chwaraeon a neuadd amlbwrpas, ac mae cyfle i'r ysgol a'r gymuned ddefnyddio'r caeau chwarae. Ers agor yr ysgol mae problemau wedi codi ynglŷn â rhannu'r costau rhedeg yn deg rhwng yr ysgol ac Adrannau Hamdden a Llyfrgelloedd y Cyngor Sir. Mae'r defnydd y tu allan i oriau ysgol wedi arwain at gostau gofalu uwch.
- Mae'n bwysig ymchwilio i'r ardal i benderfynu pa gyfleusterau sydd ar gael cyn neilltuo rhannau o'r ysgol at ddefnydd y gymuned. Mae'n bosibl na fydd gwerth mewn dyblygu cyfleusterau, a gallai hyd yn oed olygu bod rhai canolfannau'n cau.

## 5. Gwell darpariaeth addysgol

5.1 Mae'n ymddangos bod awdurdodau lleol wedi gwella darpariaeth addysgol mewn 3 ffordd – cyfleusterau i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, cyfleusterau ar gyfer disgyblion y blynyddoedd cynnar a gwelliannau i adeiladau. Er nad oes sicrwydd y bydd y gwelliannau hyn yn arwain at ryddhau adnoddau, mae'n bosibl bod sail addysgol gref i roi ystyriaeth iddynt.

### Cyfleusterau ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

5.2 Mae nifer o awdurdodau lleol wedi defnyddio adeiladau gwag i ddarparu lle a chyfleusterau gwell i ddisgyblion ag anghenion ychwanegol; mae hyn yn cynnwys darpariaeth arbenigol ar wahân neu gyfleusterau datblygiadol sy'n galluogi disgyblion i ddatblygu gyda'r nod o gael eu hintegreiddio'n effeithiol i ddarpariaeth y brif ffrwd. Mae'r canlynol ymysg y defnydd a nodwyd:

- a) Darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY, gan gynnwys cyfleusterau ag offer arbennig ac ystafelloedd cymorth ar gyfer disgyblion o'r fath.
- b) Creu cyfleuster addysgu arbenigol ar gyfer disgyblion ag ADY. Mewn un awdurdod lleol gwnaed darpariaeth ar gyfer plant ag ystod o anghenion addysgol arbennig (AAA) mewn cyfleusterau addysgu arbenigol wedi eu lleoli mewn ysgolion prif ffrwd. Mae'r awdurdod lleol o'r farn bod y rhaglen ddatblygiadol hon wedi cyfrannu at ei record dda o ran cynhwysiant a'r gymeradwyaeth a gafodd gan Estyn yn ystod yr arolygiad mwyaf diweddar o'r awdurdod lleol.
- c) Darparu grŵp meithrin ar gyfer plant sy'n cael anawsterau mewn ystafell ddosbarth fawr a physur. Soniodd un awdurdod lleol fod plant yn cael eu hadnabod gan eu hysgol a'u cadarnhau gan Seicolegydd Addysg yr ysgol neu'r Tîm Cefnogi Ymddygiad. Yn y grŵp caiff plant eu helpu i ddatblygu, tyfu a dysgu mewn 'camau bach' gan dderbyn cysur a chefnogaeth ychwanegol. Mae'r diwrnod wedi'i strwythuro'n ofalus gyda chydbwysedd rhwng dysgu ac addysgu a threfn ddyddiol bendant mewn lleoliad cartrefol, sy'n cefnogi anghenion emosiynol y disgyblion. Darperir y cwricwlwm drwy'r Cyfnod Sylfaen gan ddilyn pynciau tebyg i'r dosbarthiadau prif ffrwd. Rhoddir pwyslais ar ddatblygu sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu, gan feithrin hyder a hunan-barch ac annog annibyniaeth. Mae'r grŵp meithrin hefyd yn gwneud gwaharddiadau'n llai tebygol gan fod plant yn cael strategaethau i'w helpu i ymdrin â materion megis rheoli dicter. Caiff plant eu dysgu mewn grŵp bach ond maent yn cael eu hintegreiddio gyda'r ysgol brif ffrwd ar gyfer yr holl weithgareddau cymdeithasol, amser cinio, chwarae awyr agored a phan maent yn barod, gweithgareddau grŵp mwy. Mae'r awdurdodau lleol sydd â grwpiau o'r fath wedi sôn iddynt gael canlyniadau cadarnhaol iawn, a bod y plant yn ailymuno â'r dosbarthiadau prif ffrwd neu'n dychwelyd i'r fam-ysgol. Cymerir gofal gyda'r broses bontio er mwyn monitro a chadw cysylltiad gyda'r dosbarth sy'n derbyn y plentyn.

- ch) Creu Adnodd Nam ar y Clyw sy'n hollol gynhwysol, gyda phlant sydd â mathau eraill o ADY yn gweithio ochr yn ochr â phlant sydd â nam ar y clyw. Soniodd un awdurdod lleol fod cymorth yr Adnodd wedi bod yn effeithiol iawn, gyda phlant â nam ar eu clyw yn cyrraedd lefel 2 ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 a lefel 4 ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2. Trwy ddefnyddio'r cyfleuster hwn ar gyfer cymorth ychwanegol, gellir sicrhau y gall pob plentyn symud ymlaen yn academiaidd drwy gydol y flwyddyn.
- d) Creu ystafelloedd synhwyraidd.
- dd) Darparu uned mewn dosbarth ar gyfer y rhai nad ydynt yn mynychu'r ysgol neu sy'n wynebu anawsterau wrth gael mynediad at y cwricwlwm, lle mae hyn wedi arwain at broblemau ymddygiad. Soniodd un awdurdod lleol fod staff prif ffrwd yn datblygu ac yn cefnogi cynnwys y cwricwlwm yn nosbarthiadau'r uned tra bo staff yr uned yn cefnogi'r myfyrwyr ac yn cysylltu â'r staff prif ffrwd er mwyn datblygu dulliau gwahanol o gyflwyno'r cwricwlwm.
- e) Allgymorth ysgol arbennig.

### **Manteision cyfleusterau ar gyfer disgyblion ag ADY**

Mae nifer o awdurdodau lleol wedi darganfod bod darpariaeth o'r math hwn wedi arwain at y canlynol:

- Gwell cyrhaeddiad gan ddisgyblion.
- Cynnydd mewn presenoldeb yn yr ysgol.
- Mwy o amser yn cael ei dreulio mewn gwersi prif ffrwd.
- Disgyblion yn dilyn cyrsiau astudio Tystysgrif Genedlaethol Addysg Uwchradd (TGAU) a rhaglen Ymddiriedolaeth y Tywysog lle na fyddent wedi gallu gwneud hynny fel arall.
- Staff yr Uned yn datblygu rhaglenni galwedigaethol a chymdeithasol ar gyfer myfyrwyr penodol.
- Hyfforddiant llwyddiannus ar y cyd ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu.
- Gwell iechyd a diogelwch, gyda llai o risg o ddamweiniau.

### **Gwersi a ddysgwyd**

- Yn aml, mae ychwanegu darpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn golygu dilyn gweithdrefnau statudol ar gyfer ad-drefnu ysgolion.
- Gallai cyfleusterau ychwanegol olygu y bydd angen buddsoddiad cyfalaf a chymorth refeniw parhaus. Dylid asesu'r costau er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn gynaliadwy.

## Cyfleusterau ar gyfer disgyblion y blynyddoedd cynnar

6 Gyda thwf darpariaeth blynyddoedd cynnar ac effaith y Cyfnod Sylfaen, mae nifer o awdurdodau lleol wedi achub ar y cyfle i ddefnyddio adeiladau gwag i wella'r cyfleusterau sydd ar gael ar gyfer y blynyddoedd cynnar. Mae'r canlynol ymysg y defnyddiau a nodwyd:

- a) Gosod yr adeilad i gylchoedd chwarae preifat mewn ardal lle mae'r cyfleusterau hyn yn brin.
- b) Ymestyn ystod oedran yr ysgol lle bo hynny'n briodol i dderbyn plant 3 oed. Bydd angen gweithdrefnau statudol er mwyn gwneud y newid hwn, gan gynnwys ymgynghori â phartïon sydd â budd a chyhoeddi hysbysiad statudol.
- c) Ailfodelu i greu neu wella cyfleusterau Cyfnod Sylfaen.
- ch) Darparu canolfan integredig i deuluoedd / plant sy'n darparu adeilad a chyfleusterau hyfforddiant i nifer o dimau awdurdodau lleol allweddol sy'n cyflawni cynlluniau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys:
  - 1) Addysg gynnar i blant 3 oed.
  - 2) Cychwyn Cadarn, a oedd yn darparu cymorth wedi'i dargedu ar gyfer plant a phobl ifanc o deuluoedd difreintiedig er mwyn gwella eu cyfleoedd mewn bywyd.
  - 3) Dechrau'n Deg, sy'n darparu gofal plant rhan-amser o safon am ddim i blant 2-3 oed, gwasanaeth ychwanegol gan Ymwelwyr Iechyd, cyfle i ddilyn rhaglenni rhianta a sesiynau Iaith a Chwarae yn y cymunedau mwyaf difreintiedig. Dyma un o flaenoriaethau uchaf Llywodraeth Cymru.
  - 4) Mae Chatterbox Playtimes yn cynnal sesiynau mewn ysgolion lleol a grwpiau rhieni a phlant bach gan ganolbwyntio ar roi syniadau a gwybodaeth i rieni ynglŷn â datblygu profiadau dysgu eu plant drwy chwarae. Cynhelir gweithgareddau crefft, pobi a chwarae sy'n rhoi arweiniad i rieni ar sut i ddatblygu gweithgareddau iaith a rhif gyda'u plant ifanc. Mae'r sesiynau hefyd yn rhoi cymorth i rieni sydd â phryderon am eu plant.
  - 5) Gwasanaethau statudol sy'n cynnig gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i rieni a gofalmwr plant a phobl ifanc ag AAA yw gwasanaethau Partneriaethau Rhieni. Mae'r gwasanaethau hyn yn rhoi rhieni mewn cysylltiad â sefydliadau lleol a chenedlaethol eraill ac mae ganddynt rôl o ran sicrhau bod barn rhieni yn cael ei chlywed a'i deall a bod y safbwyntiau hyn yn llywio polisi ac arfer lleol.



- 6) Caiff dosbarthiadau cyswllt rhieni eu rhedeg gan gynorthwyydd addysgu er mwyn datblygu sgiliau rhieni. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys: paratoi gweithgareddau gwyliau i blant oed ysgol; gwneud llyfrau i gefnogi storïau ac ysgrifennu yn y blynyddoedd cynnar; datblygu sgiliau cof trwy greu gemau ac adnoddau; mae cynlluniau ar y gweill i'r grŵp gynnwys 'Heart Start', adnoddau rhifedd, a sgiliau byw'n iach.
- 7) Nursery plus (gofal plant), cyn/ar ôl ysgol a gofal plant yn ystod y gwyliau.
- 8) Tîm y Cyfnod Sylfaen yn defnyddio ystafelloedd i roi hyfforddiant i ysgolion a lleoliadau nas cynhelir ar fodiwlau hyfforddiant cenedlaethol y Cyfnod Sylfaen, sy'n galluogi'r awdurdod lleol i symud Agenda Teuluoedd yn Gyntaf Llywodraeth Cymru yn ei blaen.

### **Manteision gwella darpariaeth y blynyddoedd cynnar**

- Mae awdurdodau lleol wedi sôn bod ysgolion sydd wedi denu cylchoedd chwarae i'r safle wedi gallu cynhyrchu refeniw yn y gorffennol drwy gytundebau rhentu, ac yn yna trwy Gytundebau Trosglwyddo Rheolaeth. Gall y ddarpariaeth greu incwm yn hytrach na bod yn dreth ar adnoddau. Dangoswyd bod grwpiau rhieni a phlant a darpariaeth arall y blynyddoedd cynnar yn arwain at gynnydd yn y nifer ar gofrestr yr ysgolion dan sylw.
- Soniodd ysgolion nad oedd ganddynt leoliad cyn ysgol ar y safle cyn hyn eu bod wedi cael budd o ran meithrin cysylltiadau agosach â'u cymunedau. Roedd yr ysgolion dan sylw hefyd wedi elwa o feithrin cysylltiadau gyda rhieni a allai o bosibl anfon eu plant i'r ysgol pan fyddant yn cyrraedd yr oed priodol, gan ddod â chyllid ychwanegol gyda nhw.
- Canfu un awdurdod lleol fod nifer y disgyblion sy'n gwneud cais i ymuno ag ysgol wedi cynyddu ers cyflwyno Dechrau'n Deg yn yr ysgol a bod hyn wedi helpu, ar raddfa lai, i lenwi rhai lleoedd gwag yn yr ysgol. Mae nifer y plant sydd wedi dewis dod i'r ysgol â darpariaeth Dechrau'n Deg, yn hytrach nag ysgolion eraill yn yr ardal lle mae llawer llai o leoedd gwag, wedi helpu i sicrhau cydbwysedd o ran y lleoedd sydd ar gael yn yr ardal, gan ei gwneud yn fwy tebygol y bydd rhieni yn cael eu dewis cyntaf o ysgol.

## Gwersi a ddysgwyd

- Mae angen i awdurdodau lleol edrych yn ofalus ar y tueddiadau o ran niferoedd disgyblion ac ystyried effeithiau trefniadaeth ysgolion cyn sefydlu Uned Dechrau'n Deg mewn ysgolion. Cafwyd gwared ar y lleoedd gwag mewn un ysgol trwy sefydlu uned Dechrau'n Deg ond wedi hynny bu cynnydd yn nifer y disgyblion yn yr ardal oherwydd cynnig trefniadaeth ysgolion ar wahân. Golygai hynny nad oedd yr ysgol yn gallu cymryd pob un o'r disgyblion a oedd yn dymuno cael lle ynddi.
- Mewn achos arall cafodd darpariaeth Dechrau'n Deg ei sefydlu mewn ysgol gynradd a allai gau yn y dyfodol fel rhan o'r Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion.
- Ni all ysgol roi cymhorthdal yn gyfreithlon i drydydd parti ddefnyddio safle'r ysgol.
- Gall Dechrau'n Deg ddenu teuluoedd yn ôl i ysgol, ond os penderfynir defnyddio'r lleoedd gwag er mwyn darparu'r ddarpariaeth, gall olygu na fydd yn bosibl ymateb i alw sy'n codi yn nes ymlaen.

## Gwella cyfleusterau

7 Mae rhai awdurdodau lleol wedi achub ar y cyfle i ddarparu cyfleusterau ychwanegol neu well i ddiwallu anghenion sy'n newid, o ran y cwricwlwm neu ganllawiau arfer gorau, megis Bwletin Adeiladu 98 a 99. Mae'r gwaith wedi cynnwys:

- a) Ailfodelu er mwyn darparu adeiladau gwell a chyfleusterau ychwanegol i gyfoethogi'r cwricwlwm, e.e. darparu ystafell Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, llyfrgelloedd, manau ar gyfer celf, cerddoriaeth a gwyddoniaeth ymarferol, a manau adnoddau a chymorth eraill.
- b) Darparu manau dysgu galwedigaethol, er enghraifft cyfleusterau gwallt a harddwch, gweithdy peirianwaith moduron.
- c) Darparu Canolfan Iaith ar gyfer cyrsiau trochi iaith a chanolfan ar gyfer athrawon sy'n hybu'r Gymraeg / cynorthwyo gyda'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob ysgol yn ardal yr awdurdod lleol.
- ch) Creu dosbarth arsylwi.
- d) Ailfodelu i newid ystafelloedd bach i'r maint a argymhellir gan y Bwletin Adeiladu a chreu mwy o fannau cyfleus i'w defnyddio, er enghraifft ystafelloedd dosbarth o faint mwy rheolaidd neu o faint mwy.
- dd) Ailfodelu i sicrhau bod gan ysgol y cyfleusterau a argymhellir yng nghanllawiau'r Bwletin Adeiladu.
- e) Darparu manau gwell ar gyfer derbynfa, swyddfa neu fan cyfarfod.
- f) Darparu cyfleusterau archif a storio.

- ff) Cyfleusterau ar gyfer gweithgareddau cynllunio a pharatoi.
- g) Mannau ar gyfer gwasanaeth cwnsela i'r ysgol.
- ng) Mannau ar gyfer y gwasanaeth iechyd i gynghori pobl ifanc mewn ysgol uwchradd.

### **Manteision gwella cyfleusterau**

- Mae awdurdodau lleol yn hysbysu bod tystiolaeth yn dangos y gwelwyd gwelliant yn sgôr Arolygiadau ysgolion sydd wedi gwneud gwelliannau sylweddol i adeiladau.
- Mae un awdurdod lleol yn sôn bod iechyd a lles disgyblion wedi gwella, gan gynnwys arferion bwyta iachach a chynnydd yn nifer y disgyblion sy'n bwyta bwydlen 'blas am oes'.

### **Gwersi a ddysgwyd**

- Mae angen i awdurdodau lleol fod yn effro hefyd i unrhyw newidiadau polisi o safbwynt y cwricwlwm ar lefel gynradd neu uwchradd, ac ystyried yr effaith bosibl ar y ffordd y mae ysgolion yn defnyddio lle ac adnoddau.

## 6. Crynodeb o'r materion i'w hystyried

Rhoddir crynodeb isod o'r gwersi a ddysgwyd a materion eraill a gafodd eu codi gan y rhai yr ymgynghorwyd â hwy ac yr ystyriwyd y byddai'n ddefnyddiol eu cynnwys:

- Mae gan gyrff llywodraethu ran allweddol yn dasg o benderfynu a fyddai'n briodol defnyddio rhan o ysgol i bwrpas arall. Mater i'r ysgol a'i chorff llywodraethu benderfynu arno yw rheolaeth yr adeiladau, yn ystod oriau ysgol a thu allan i oriau ysgol. Rhaid i gyrff llywodraethu ystyried pa mor ddymunol yw gadael i'r gymuned ddefnyddio'r adeilad a sicrhau nad yw'r defnydd a wneir o gyfleusterau'r ysgol yn effeithio ar allu'r disgyblion i ddefnyddio'r cyfleusterau o ddydd i ddydd.
- Caiff cyrff llywodraethu hefyd lunio cytundeb trosglwyddo rheolaeth os mai diben y cytundeb hwnnw yw hyrwyddo defnydd cymunedol o adeilad yr ysgol. Fodd bynnag ni chaiff y corff llywodraethu lunio unrhyw gytundeb o'r fath sy'n darparu neu sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer defnyddio adeilad yr ysgol i gyd neu unrhyw ran ohono yn ystod oriau ysgol, oni bai ei fod wedi cael caniatâd yr awdurdod lleol ymlaen llaw.
- Rhaid i awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu gydymffurfio â'r gofynion a nodir yn Rheoliadau Rheoli Mangreuedd Ysgol (Cymru) 2008 a'r cyfarwyddyd yn y Canllaw i'r Gyfraith i Lywodraethwyr Ysgolion, sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru, wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â'r defnydd a wneir o adeiladau ysgol.
- Rhaid i bob trefniant iechyd a diogelwch ac amddiffyn plant, a phob trefniant contractio a gweinyddol fod yn foddhaol.
- Mae angen sicrhau bod llinellau atebolrwydd clir rhwng y corff llywodraethu a'r awdurdod lleol.
- Er ei bod yn eithriadol bwysig ystyried sut y gall newidiadau gyfrannu at welliannau i ddysgwyr, mae hefyd angen ystyried y goblygiadau o ran cyfalaf a referniw yn ofalus rhag peryglu cyllideb yr ysgol.
- Mae angen monitro effaith y newid a, phryd bynnag y bo modd, mesur y budd.
- Mae angen llenwi'r bylchau sy'n bodoli ac osgoi dyblygu cyfleusterau eraill sydd yn y gymuned yn barod.
- Ar adeg pan mae nifer y disgyblion cynradd yn cynyddu, bydd yr angen posibl i gyflwyno mwy o le yn ôl i'r ysgol yn berthnasol. Mae angen i awdurdodau lleol roi ystyriaeth ofalus i ragamcanion o boblogaeth ysgolion, rhag peryglu eu gallu i ddiwallu anghenion yn y tymor hirach.
- Nid yw'r ffyrdd posibl o ddefnyddio cyfleusterau dros ben mewn ysgolion wedi eu cyfyngu i'r rhai a gyflwynir yn y ddogfen hon.

- Dylai awdurdodau lleol adolygu darpariaeth ysgolion yn gyson. Bydd angen o hyd am ad-drefnu darpariaeth, gan gynnwys cau ysgolion, pan fydd modd cyflwyno gwelliannau i ddysgwyr mewn ffordd gynaliadwy trwy ddilyn gweithdrefnau statudol trefniadaeth ysgolion.

## 7. Cysylltiadau

Os hoffech chi fwy o wybodaeth ynglŷn â rhai o'r pynciau sydd wedi eu cynnwys yn y ddogfen hon, mae'r swyddogion awdurdod lleol canlynol yn hapus i roi sylwadau am eu profiadau.

<b>Pwnc</b>	<b>Enw cyswllt</b>	<b>Awdurdod Lleol</b>	<b>Manylion cyswllt</b>
Dechrau'n Deg	Debbie Morgan	Sir Fynwy	01633 644463 <a href="mailto:debbiemorgan@monmouthshire.gov.uk">debbiemorgan@monmouthshire.gov.uk</a>
Defnyddio adeiladau ysgol gwag i ddibenion eraill	Joyce Slack	Merthyr	01685 724616 <a href="mailto:joyce.slack@merthyr.gov.uk">joyce.slack@merthyr.gov.uk</a>
Cyfleusterau Addysgu Arbenigol	Kelly Small	Abertawe	01792 636686 <a href="mailto:Kelly.Small@swansea.gov.uk">Kelly.Small@swansea.gov.uk</a>
Cyfleuster Dysgu Cymraeg Dwys	Emrys Bebb	Ynys Môn	01248 752919 <a href="mailto:WEBED@anglesey.gov.uk">WEBED@anglesey.gov.uk</a>

## **Atodiad: Dogfennau cysylltiedig**

- Strwythur Gwasanaethau Addysg yng Nghymru (Saesneg yn unig)
- Sut mae lleoedd dros ben yn effeithio ar yr adnoddau sydd ar gael i wario ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion?
- Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru – Cylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif: 021/2011
- Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013
- Cod Trefniadaeth Ysgolion: Cod Statudol, rhif dogfen: 006
- Rheoliadau Rheoli Mangreoedd Ysgol (Cymru) 2008